

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili - Asesiad Effaith Integredig

Dyluniwyd yr asesiad effaith integredig hwn er mwyn helpu i gefnogi'r Cyngor i wneud penderfyniadau effeithiol ac ar sail gwybodaeth wrth sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag amrywiaeth o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys:

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol – Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- Ymgynghoriad Statudol v Athrawiaeth Disgwyliad Dilys ac Egwyddorion Gunning
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

NODER: Dim ond os yw cynigion o natur strategol neu wrth adolygu penderfyniadau strategol blaenorol y mae angen cwblhau Adran 3 y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol. Gweler tudalen 6 o Ganllawiau Llywodraeth Cymru, Paratoi ar gyfer cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

1. Manylion y Cynnig

Swyddog Arweiniol	Pennaeth Gwasanaeth	Maes Gwasanaeth ac Adran	Dyddiad
Andrea West	Sue Richards	Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif, Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol	Cyhoeddiad 23.07.2021 Adolygu 2.12.21

A yw'r cynnig hwn yn ymwneud â... (ticiwch flwch perthnasol)											
Polisi	<input type="checkbox"/>	Strategaeth / Cynllun	<input type="checkbox"/>	Ymarfer	<input type="checkbox"/>	Gweithdrefn	<input type="checkbox"/>	Ailstrwythuro	<input type="checkbox"/>	Prosiect	<input checked="" type="checkbox"/>

Beth yw'r cynnig i'w asesu? *Rhowch fanylion bras am y cynnig a rhowch ddolen i unrhyw adroddiad neu ddogfennau perthnasol.*

Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21^{ain} Ganrif - Band B Cam 2 – Ysgol Gynradd Plasyfelin

Mae angen i ysgolion yng Nghymru fod mewn cyflwr da ac yn addas i ddarparu addysg. Mewn rhai achosion, gellir moderneiddio, trwsio, adnewyddu, ehangu neu ailadeiladu ysgolion yn rhannol i gyrraedd y safonau sydd eu hangen ar gyfer dulliau addysgu a dysgu cyfoes. Fodd bynnag, nid yw pob ysgol yn y lleoliad cywir ar hyn o bryd ac, mewn achosion o'r fath, efallai y byddwn yn cynnig adeiladu ysgolion newydd neu newid ysgolion sydd eisoes yn bodoli.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn anelu at barhau i godi safonau ysgolion a gwella safonau'r amgylchedd dysgu i greu ysgolion yr 21ain ganrif sy'n addas at y diben a rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn yng Nghaerffili. Mae rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif yn rhaglen buddsoddi cyfalaf strategol, bwysig yn yr hirdymor. Caiff ei hariannu ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a'i nod yw creu cenhedlaeth o ysgolion yr 21ain ganrif yng Nghymru.

Mae Ysgol Gynradd Plas-y-felin wedi cael ei nodi fel un o'r prosiectau blaenoriaeth ym Mand B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Mae Ysgol Gynradd Plas-y-felin wedi'i dynodi'n 'Ysgol Gymunedol' yn unol â'r diffiniad ym Mhennod 4 o Ran 1 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a'i nod yw cynorthwyo disgyblion oed cynradd yn ei dalgylch er mwyn galluogi pob plentyn i gyflawni ei botensial a llenwi staff, disgyblion a rhieni â brwdfrydedd a dyheadau uwch mewn amgylchedd cefnogol a diogel gan baratoi disgyblion i ddiwallu anghenion byd sy'n newid yn gyson - "Cydwethio am y Gorau" (aralleiriad o Ddatganiad Cenhadaeth yr Ysgol).

Hoffai'r Cyngor wneud 'newid a reoleiddir' i ysgol a gynhelir:

Rydym yn cynnig gwneud y canlynol:

- **Creu ysgol newydd, mwy o faint ar gyfer Ysgol Gynradd Plas-y-felin ar safle presennol yr ysgol, er mwyn darparu ar gyfer y galw a ragwelir yn y dyfodol yn yr ardal. Bydd lle yn yr ysgol newydd i 420 o ddisgyblion, yn ogystal â lleoedd meithrin, a disgwylir y caiff y prosiect ei gwblhau ym mis Medi 2024.**
- Cynigir y bydd yr adeilad newydd yn darparu ysgol gynradd newydd, addas at y diben ac o'r radd flaenaf i Blasy-felin ar dir y safle presennol. Bydd yn cynnwys prif ystafelloedd dosbarth aml-ddeddfydd sy'n cydymffurfio â gofynion maint, prif neuadd, ardal technoleg bwyd, llyfrgell ac ardal TG fel rhan o gynllun arddull marchnad stryd.
- Bydd manau dysgu a chyfleusterau gwell ar safle'r ysgol gynradd newydd a fydd yn darparu amgylchedd addysgu a dysgu ysgogol gyda chyfleusterau'r 21^{ain} ganrif sy'n canolbwyntio ar ddysgu, hunan-barch a llesiant yr holl ddisgyblion.
- Bydd y prosiect arfaethedig yn ystyried y dyhead i annog a hwyluso'r gymuned i ddefnyddio'r ased. Y bwriad yw cynnwys mesurau yn y dyluniad fel y gellir creu 'parthau' diogel y gall y gymuned ehangach eu defnyddio.

Noder, nid yw gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 na Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn berthnasol mewn perthynas â'r cynnig hwn. Nid yw'r gofyniad i ymgynghori o dan y cod yn berthnasol i gynigion lle byddai prif fynedfa'r ysgol ar ei safle newydd o dan un filltir o'r safle presennol a bod yr ehangu yn llai na 25% o'r capasiti cyfredol, y mae'r ddau ohonynt yn berthnasol yn yr achos hwn. Fodd bynnag, at ddibenion bwrw ymlaen â'r cynnig hwn ac i alluogi gwneud penderfyniadau tryloyw, cytbwys ac agored, cynhelir proses ymgynghori ac mae'n adlewyrchu egwyddorion Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu'r Cyngor 2020-2025. Gan ddefnyddio dull "Y Sbectrwm Ymgysylltu", ymgwymerir â lefel briodol o ymgysylltu wrth hysbysu ac ymgynghori â rhanddeiliaid, gan adlewyrchu'r prosesau cyfatebol a amlinellir yn Adran 3 Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn unig.

Ceir rhagor o wybodaeth ar [dudalennau gwe Ysgolion yr 21ain Ganrif](#)



2. Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

(Yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae'n ofynnol i'r Cyngor roi "sylw priodol" i'r angen i gael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth; hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng grwpiau gwahanol; a meithrin cydberthnasau da rhwng grwpiau gwahanol). Noder y gall fod gan unigolyn fwy nag un nodwedd warchoddedig.

<u>Nodweddion Gwarchoddedig</u>	A yw'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?	Os oes effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?	Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn hon?
Oedran (pobl o bob oed)	<p>Cadarnhaol Nod y cynnig yw ceisio darparu ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed ac yn sgil cynlluniau i gefnogi defnydd cymunedol, gall fod o fudd i bob oedran.</p> <p>Cadarnhaol Mae'r cynnig yn ymwneud â chodi adeilad newydd a mwy yn lle ysgol gynradd bresennol Plasyfelin i'w leoli ar dir safle presennol yr ysgol ac i gynnwys mwy o le ar gyfer hyd at 420 o ddisgyblion, yn ogystal â 60 o leoedd meithrin, a chyfleusterau</p>	Dim wedi'u nodi	<p><u>Deddf Cydraddoldeb 2010</u></p> <p><u>Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024</u></p> <p><u>Cymru Gyfartal 2020-2024 Hawdd ei Ddeall</u></p> <p><u>Caerffili – Proffiliau Wardiau Cyfrifiad 2011</u></p> <p><u>Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)</u></p> <p>Gwybodaeth ystadegol ynglŷn â nifer y disgyblion ar lefel awdurdod lleol a</p>

	<p>cymunedol a chwaraeon aml-ddefnydd ychwanegol hefyd.</p> <p>Cadarnhaol Bydd y cynnig hwn yn sicrhau y gellir ateb y galw a ragwelir yn y dyfodol yn yr ardal.</p> <p>Cadarnhaol Mae'r cynnig hwn yn bwriadu codi'r ysgol newydd gyferbyn â'r ysgol bresennol ar y safle a fydd felly'n osgoi tarfu ar drefniadau teithio yn y dyfodol.</p> <p>Cadarnhaol Bydd y sawl a fydd yn mynychu, yn defnyddio ac yn gweithio yn yr adeilad yn cael budd o gyfleuster arloesol yr 21^{ain} Ganrif, sy'n addas at y diben.</p> <p>Cadarnhaol Mae'r cynnig yn bwriadu parhau i gynnwys darpariaeth gofal plant a defnydd cymunedol ar y safle newydd. Caiff y seilwaith ar gyfer y Wi-Fi a Thechnoleg Gwybodaeth ei sefydlu i gefnogi mynediad cyhoeddus a defnydd gan y gymuned. Caiff y posibilrwydd o alluogi'r gymuned i ddefnyddio'r cyfleusterau chwaraeon ar adegau addas hefyd ei ystyried yn unol ag amserlen y cwricwlwm.</p>		<p>chyfrwng iaith eu haddysg.</p> <p>Y capasiti cyfredol yw 394 yn ogystal â 57 o leoedd meithrin.</p> <p>Mae 271 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd (heb gynnwys y ddarpariaeth Feithrin sy'n cynnwys 35 o blant).</p> <p>Nifer amcanestynedig y disgyblion a dderbynnir i'r ysgol fydd 420 yn ogystal â 60 o leoedd Meithrin.</p>
--	--	--	--

<p>Anabledd (<i>pobl ag anableddau/ cyflyrau hirdymor</i>)</p>	<p>Cadarnhaol Yn wahanol i adeiladau sydd eisoes yn bodoli, bydd yr ysgol newydd, mwy o faint arfaethedig yn cydymffurfio'n llwyr â gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ac yn gyson â Bwletinau Rheoliadau Adeiladu perthnasol Llywodraeth Cymru (BB99).</p> <p>Cadarnhaol Y dyhead, ac un o ragofynion y buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru, yw ymrwymo i sicrhau bod asedau ar gael i gefnogi angen addysgol a defnydd cymunedol, hyrwyddo cadernid cymunedol a chyfrannu at gyflawni sawl un o Strategaethau'r Awdurdod Lleol. Er mwyn gwneud y defnydd gorau posibl o'r seilwaith a'r adnoddau newydd, fel rhan o'r cynnig, caiff hyblygrwydd ei sicrhau wrth adeiladu'r ysgol mewn ffordd a fydd yn ateb galw defnydd cymunedol lleol.</p>	<p>Bydd yr Awdurdod yn ceisio lleihau unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r broses o adeiladu'r ysgol newydd eu cael ar drigolion lleol.</p>	<p><u>Deddf Cydraddoldeb 2010</u></p> <p><u>Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024</u></p> <p><u>Cymru Gyfartal 2020-2024 Hawdd ei Ddeall</u></p> <p>³Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 <https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/></p> <p>Mae'r Ddeddf yn nodi saith nod llesiant y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol weithio i'w cyflawni.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymru Lewyrchus • Cymru Gydnherth • Cymru sy'n Fwy Cyfartal • Cymru Iachach • Cymru o Gymunedau Cydlynus • Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu • Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang
<p>Ailbennu Rhywedd (<i>unrhyw un y mae ei hunaniaeth rhywedd neu ei fynegiant rhywedd yn wahanol i'r rhyw a</i>)</p>	<p>Niwtral Dim newid wedi'i ragweld</p>	<p>Ddim yn gymwys gan fod y cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach ni waeth pa nodweddion gwarchoddedig penodol sydd ganddynt</p>	<p>Ddim yn gymwys</p>

<i>bennwyd iddo pan y'i ganwyd)</i>			
Priodas neu Bartneriaeth Sifil (<i>pobl sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil</i>)	Niwtral Dim effaith	Ddim yn gymwys gan fod y cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach ni waeth pa nodweddion gwarchodedig penodol sydd ganddynt	Ddim yn gymwys
Beichiogrwydd a Mamolaeth (<i>menywod sy'n feichiog a/neu ar absenoldeb mamolaeth</i>)	Niwtral Dim effaith	Ddim yn gymwys gan fod y cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach ni waeth pa nodweddion gwarchodedig penodol sydd ganddynt	Ddim yn gymwys
Hil (<i>pobl o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a chefnidroedd hiliol gwahanol</i>)	Niwtral Dim newid wedi'i ragweld	Ddim yn gymwys gan fod y cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach ni waeth pa nodweddion gwarchodedig penodol sydd ganddynt	Ddim yn gymwys
Crefydd neu Gred (<i>pobl sydd â chrefyddau a chredoau gwahanol, gan gynnwys pobl heb unrhyw greddau</i>)	Niwtral Dim newid wedi'i ragweld	Ddim yn gymwys gan fod y cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach ni waeth pa nodweddion gwarchodedig penodol sydd ganddynt	Ddim yn gymwys
Rhyw (<i>menywod a dynion, merched a bechgyn a'r rhai sy'n nodi eu rhywedd eu hunain</i>)	Niwtral Dim newid wedi'i ragweld	Ddim yn gymwys gan fod y cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach ni waeth pa nodweddion gwarchodedig penodol sydd ganddynt	Ddim yn gymwys
Cyfeiriadedd Rhywiol (<i>lesbiaidd, hoyw, deurywiol, heterorywiol</i>)	Niwtral Dim newid wedi'i ragweld	Ddim yn gymwys gan fod y cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach ni waeth pa nodweddion gwarchodedig penodol	Ddim yn gymwys

sydd ganddynt

3. Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Penderfyniadau Strategol yn Unig)

(Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn rhoi cyfle i ni wneud pethau'n wahanol a sicrhau bod mynd i'r afael ag anghydraddoldeb wir wrth wraidd prosesau gwneud penderfyniadau. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw ar incwm isel o gymharu ag eraill yng Nghymru, heb fawr ddim cyfoeth cronedig, gan arwain at fwy o amddifadedd materol sy'n cyfyngu ar allu i gael nwyddau a gwasanaethau sylfaenol)

Ystyriwch y grwpiau agored i niwed ychwanegol hyn a'r effaith y gall neu na all eich cynnig ei chael arnynt:

- Rhieni sengl a theuluoedd agored i niwed
- Pobl â llythrennedd/rhifedd isel
- Pensiynwyr
- Plant sy'n derbyn gofal
- Pobl ddigartref
- Gofalwyr
- Cymuned y Lluoedd Arfog
- Myfyrwyr
- Aelwydydd un oedolyn
- Pobl sy'n camddefnyddio sylweddau
- Pobl sydd â phrofiad o'r system ceisio lloches
- Pobl o bob oed sy'n gadael lleoliad gofal
- Pobl sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru (MALIC)
- Pobl sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder troseddol

Anfantais Economaidd-gymdeithasol	A yw'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut?	Os oes effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?	Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn hon?
<p>Incwm Isel / Tlodi Incwm <i>(methu fforddio cynnal taliadau rheolaidd fel biliau, bwyd, dillad, trafnidiaeth ac ati)</i></p>	<p>Cadarnhaol Bydd darparu cyfleusterau addysgol sy'n addas i'r dyfodol yn gwella deilliannau addysgol a chanlyniadau bywyd disgyblion presennol Ysgol Gynradd Plasyfelin a disgyblion y dyfodol.</p> <p>Cadarnhaol Mae Ysgol Gynradd Plasyfelin yn gwasanaethu Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) Morgan Jones 2. Mae'r ardal hon ychydig y tu allan i'r 10% uchaf o ACEHlau sydd dan yr anfantais</p>	<p>Ddim yn gymwys</p>	<p>Deddf Cydraddoldeb 2010</p> <p>Deddf Cymru 2017 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol</p> <p>Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol</p> <p>Mae Adran 45 o Ddeddf Cymru 2017 yn diwygio Rhan 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 er</p>

	<p>gymdeithasol fwyaf yng Nghaerffili a Chymru. Felly bydd y cynnig i adeiladu ysgol newydd ar safle Plasyfelin yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau sydd dan anfantais gymdeithasol yng Nghaerffili.</p> <p>Cadarnhaol Bydd y cyfleuster yn gwbl hygyrch i bobl sydd ag anableddau dysgu, waeth beth fo unrhyw anfantais economaidd-gymdeithasol benodol.</p>		<p>mwyn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gychwyn y Ddyletswydd hon yng Nghymru. Mae Gweinidogion Cymru wedi defnyddio'r pŵer hwn i gychwyn Adrannau 1 i 3 o Ddeddf 2010 yng Nghymru – y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.</p> <p>Mae'r Ddyletswydd yn gosod cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol i roi sylw priodol i'r angen i leihau anghydraddoldeb o ran canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.</p> <p>Yn yr achos hwn, y prif anghydraddoldeb o ran canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol y mae angen ei ystyried yw “Addysg – y gallu i fod yn wybodus”.</p> <p><u>A yw Cymru'n Decach? – Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol</u> (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018) Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cydnabod bod anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael effaith ganlyniadol ar addysg ac iechyd.</p> <p><u>Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)</u></p>
--	--	--	--

			<p>Mae Ysgol Gynradd Plasyfelin yn gwasanaethu Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHlau) Morgan Jones. O'r pedair ardal hyn, mae Morgan Jones 2 yn y 15^{fed} safle allan o 110 o ACEHlau ar draws Caerffili; mae ardaloedd 1, 3 a 4 yn safle 76, 82 a 66, yn y drefn honno.</p> <p>Mae data pryddau ysgol am ddim ar gyfer Plasyfelin yn dangos bod 30.8% o ddisgyblion yn cael pryddau ysgol am ddim o gymharu ag 20% ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chymru gyfan.</p>
<u>Anfantais Economaidd-gymdeithasol</u>	A yw'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut?	Os oes effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?	Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn hon?
Cyfoeth Isel a/neu Ddim Cyfoeth <i>(digon o arian i dalu costau byw sylfaenol a thalu biliau, ond dim cynilion i ymdopi ag unrhyw wariant annisgwyl a dim darpariaethau ar gyfer y dyfodol)</i>	Cadarnhaol Mae Ysgol Gynradd Plasyfelin yn gwasanaethu Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) Morgan Jones 2. Mae'r ardal hon ychydig y tu allan i'r 10% uchaf o ACEHlau sydd dan yr anfantais gymdeithasol fwyaf yng Nghaerffili a Chymru. Felly bydd y cynnig i adeiladu ysgol newydd ar safle Plasyfelin yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau sydd dan anfantais gymdeithasol yng Nghaerffili.	Ddim yn gymwys	<p><u>Deddf Cydraddoldeb 2010</u></p> <p><u>Deddf Cymru 2017 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol</u></p> <p><u>Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol</u></p> <p>Mae Adran 45 o Ddeddf Cymru</p>

	<p>Niwtral Mae'r cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach waeth beth fo unrhyw anfantais economaidd-gymdeithasol benodol</p>		<p>2017 yn diwygio Rhan 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 er mwyn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gychwyn y Ddyletswydd hon yng Nghymru. Mae Gweinidogion Cymru wedi defnyddio'r pŵer hwn i gychwyn Adrannau 1 i 3 o Ddeddf 2010 yng Nghymru – y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.</p> <p>Mae'r Ddyletswydd yn gosod cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol i roi sylw priodol i'r angen i leihau anghydraddoldeb o ran canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.</p> <p>Yn yr achos hwn, y prif anghydraddoldeb o ran canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol y mae angen ei ystyried yw "Addysg – y gallu i fod yn wybodus".</p> <p><u>A yw Cymru'n Decach? – Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol</u> (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018) Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cydnabod bod anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael effaith ganlyniadol ar addysg ac iechyd.</p>
--	---	--	--

			<p><u>Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)</u></p> <p>Mae Ysgol Gynradd Plasyfelin yn gwasanaethu Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHlau) Morgan Jones. O'r pedair ardal hyn, mae Morgan Jones 2 yn y 15^{fed} safle allan o 110 o ACEHlau ar draws Caerffili; mae ardaloedd 1, 3 a 4 yn safle 76, 82 a 66, yn y drefn honno.</p> <p>Mae data pryddau ysgol am ddim ar gyfer Plasyfelin yn dangos bod 30.8% o ddisgyblion yn cael pryddau ysgol am ddim o gymharu ag 20% ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chymru gyfan.</p>
<p>Amddifadedd Materol (<i>methu cael nwyddau a gwasanaethau sylfaenol h.y. nwyddau ariannol fel yswiriant bywyd, talu i drwsio nwyddau trydanol sydd wedi torri/prynu rhai newydd, cartref cynnes, diddordebau ac ati</i>)</p>	<p>Cadarnhaol Mae Ysgol Gynradd Plasyfelin yn gwasanaethu Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) Morgan Jones 2. Mae'r ardal hon ychydig y tu allan i'r 10% uchaf o ACEHlau sydd dan yr anfantais gymdeithasol fwyaf yng Nghaerffili a Chymru. Felly bydd y cynnig i adeiladu ysgol newydd ar safle Plasyfelin yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau sydd</p>	<p>Ddim yn gymwys</p>	<p><u>Deddf Cydraddoldeb 2010</u></p> <p><u>Deddf Cymru 2017 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol</u></p> <p><u>Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag</u></p>

	<p>dan anfantais gymdeithasol yng Nghaerffili.</p> <p>Cadarnhaol Mae sicrhau bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau posibl o seilwaith ac adnoddau yn un o ragofynion cyllid Llywodraeth Cymru fel bod hyblygrwydd i le a chyfleusterau fod ar gael i'w defnyddio fel asedau cymunedol. Er nad yw dyluniad yr ysgol newydd arfaethedig wedi'i gwblhau eto, yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Cabinet i barhau, mae trafodaethau wedi cynnwys mynediad cymunedol i'r ysgol yn unol â gofynion y cwricwlwm ac ar ôl oriau ysgol.</p>		<p><u>anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol</u></p> <p>Mae Adran 45 o Ddeddf Cymru 2017 yn diwygio Rhan 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 er mwyn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gychwyn y Ddyletswydd hon yng Nghymru. Mae Gweinidogion Cymru wedi defnyddio'r pŵer hwn i gychwyn Adrannau 1 i 3 o Ddeddf 2010 yng Nghymru – y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.</p> <p>Mae'r Ddyletswydd yn gosod cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol i roi sylw priodol i'r angen i leihau anghydraddoldeb o ran canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.</p> <p>Yn yr achos hwn, y prif anghydraddoldeb o ran canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol y mae angen ei ystyried yw “Addysg – y gallu i fod yn wybodus”.</p> <p><u>A yw Cymru'n Decach? – Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol</u> (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018) Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cydnabod bod</p>
--	---	--	--

			<p>anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael effaith ganlyniadol ar addysg ac iechyd.</p> <p><u>Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)</u></p> <p>Mae Ysgol Gynradd Plasyfelin yn gwasanaethu Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHlau) Morgan Jones. O'r pedair ardal hyn, mae Morgan Jones 2 yn y 15^{fed} safle allan o 110 o ACEHlau ar draws Caerffili; mae ardaloedd 1, 3 a 4 yn safle 76, 82 a 66, yn y drefn honno.</p> <p>Mae data prydau ysgol am ddim ar gyfer Plasyfelin yn dangos bod 30.8% o ddisgyblion yn cael prydau ysgol am ddim o gymharu ag 20% ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chymru gyfan.</p>
<p>Amddifadedd Ardal (<i>ble rydych yn byw (ardaloedd gwledig), ble rydych yn gweithio (hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus)</i>)</p>	<p>Cadarnhaol Mae Ysgol Gynradd Plasyfelin yn gwasanaethu Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) Morgan Jones 2. Mae'r ardal hon ychydig y tu allan i'r 10% uchaf o ACEHlau sydd dan yr anfantais gymdeithasol fwyaf yng Nghaerffili a Chymru. Felly bydd y cynnig i adeiladu ysgol newydd ar safle Plasyfelin yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau sydd</p>	<p>Ddim yn gymwys</p>	<p><u>Deddf Cydraddoldeb 2010</u></p> <p><u>Deddf Cymru 2017 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol</u></p> <p><u>Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldebau</u></p>

	<p>dan anfantais gymdeithasol yng Nghaerffili.</p> <p>Cadarnhaol Bydd y broses ddylunio yn ceisio cynnwys mesurau fel y gall y gymuned ddefnyddio rhannau o adeilad newydd yr ysgol yn ddiogel ar adegau addas, yn unol ag amserlen y cwricwlwm, ac ar ôl oriau ysgol. Bydd hefyd yn cryfhau ac yn diogelu gwaith i hyrwyddo cynhwysiant a llesiant yn y gymuned.</p> <p>Cadarnhaol Bydd gwaith caffael yn cynnwys Budd i'r Gymuned fel gofyniad craidd, e.e. mewn perthynas â phrosesau recriwtio a hyfforddi lleol wedi'u targedu, cadwyni cyflenwi, mentrau cymunedol ac addysgol, wrth ddarparu'r cyfleuster newydd arfaethedig.</p> <p>Cadarnhaol Bydd yr adeilad newydd yn darparu cyfleusterau cynhwysol a fydd yn hygyrch i blant a phobl ifanc agored i niwed ynghyd â chefnogi anghenion cyfannol eu teulu ehangach a chefnogi eu llesiant yn y dyfodol. Cedwir darpariaeth gofal plant yn yr ysgol newydd. Pan fydd y safle'n cael ei</p>	<p><u>economaidd-gymdeithasol</u></p> <p>Mae Adran 45 o Ddeddf Cymru 2017 yn diwygio Rhan 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 er mwyn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gychwyn y Ddyletswydd hon yng Nghymru. Mae Gweinidogion Cymru wedi defnyddio'r pŵer hwn i gychwyn Adrannau 1 i 3 o Ddeddf 2010 yng Nghymru – y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.</p> <p>Mae'r Ddyletswydd yn gosod cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol i roi sylw priodol i'r angen i leihau anghydraddoldeb o ran canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.</p> <p>Yn yr achos hwn, y prif anghydraddoldeb o ran canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol y mae angen ei ystyried yw “Addysg – y gallu i fod yn wybodus”.</p> <p><u>A yw Cymru'n Decach? – Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol</u> (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018) Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cydnabod bod anfantais economaidd-</p>
--	---	--

	<p>ddefnyddio gan aelodau'r gymuned, byddant yn gallu cael mynediad i'r cyfleusterau ni waeth beth fo'u gofynion mynediad personol.</p>		<p>gymdeithasol yn cael effaith ganlyniadol ar addysg ac iechyd.</p> <p><u>Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)</u></p> <p>Mae Ysgol Gynradd Plasyfelin yn gwasanaethu Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHlau) Morgan Jones. O'r pedair ardal hyn, mae Morgan Jones 2 yn y 15^{fed} safle allan o 110 o ACEHlau ar draws Caerffili; mae ardaloedd 1, 3 a 4 yn safle 76, 82 a 66, yn y drefn honno.</p> <p>Mae data prydau ysgol am ddim ar gyfer Plasyfelin yn dangos bod 30.8% o ddisgyblion yn cael prydau ysgol am ddim o gymharu ag 20% ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chymru gyfan.</p>
<p>Cefndir Economaidd-gymdeithasol (dosbarth cymdeithasol h.y. cyflogaeth, incwm ac addysg rhieni)</p>	<p>Cadarnhaol Mae'r cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach waeth beth fo unrhyw anfantais economaidd-gymdeithasol benodol</p> <p>Cadarnhaol Mae Ysgol Gynradd Plasyfelin yn gwasanaethu Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) Morgan Jones 2. Mae'r ardal hon ychydig y tu allan i'r 10% uchaf o</p>	<p>Ddim yn gymwys</p>	<p><u>Deddf Cydraddoldeb 2010</u></p> <p><u>Deddf Cymru 2017 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol</u></p> <p><u>Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldebau</u></p>

	<p>ACEHlau sydd dan yr anfantais gymdeithasol fwyaf yng Nghaerffili a Chymru. Felly bydd y cynnig i adeiladu ysgol newydd ar safle Plasyfelin yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau sydd dan anfantais gymdeithasol yng Nghaerffili.</p> <p>Cadarnhaol Byddai'r ysgol newydd arfaethedig yn caniatáu i'r gymuned barhau i ddefnyddio'r cyfleuster ac ehangu'r hyn y gellid ei gynnig o bosibl.</p> <p>Cadarnhaol Bydd yr adeilad newydd yn darparu cyfleusterau cynhwysol i blant a phobl ifanc, gan gynnwys darpariaeth gofal plant cofleidiol, ynghyd â chefnogi anghenion cyfannol eu teulu ehangach a chefnogi eu llesiant yn y dyfodol.</p>		<p><u>economaidd-gymdeithasol</u></p> <p>Mae Adran 45 o Ddeddf Cymru 2017 yn diwygio Rhan 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 er mwyn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gychwyn y Ddyletswydd hon yng Nghymru. Mae Gweinidogion Cymru wedi defnyddio'r pŵer hwn i gychwyn Adrannau 1 i 3 o Ddeddf 2010 yng Nghymru – y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.</p> <p>Mae'r Ddyletswydd yn gosod cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol i roi sylw priodol i'r angen i leihau anghydraddoldeb o ran canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.</p> <p>Yn yr achos hwn, y prif anghydraddoldeb o ran canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol y mae angen ei ystyried yw "Addysg – y gallu i fod yn wybodus".</p> <p><u>A yw Cymru'n Decach? – Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol</u> (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018) Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cydnabod bod anfantais economaidd-</p>
--	--	--	--

			<p>gymdeithasol yn cael effaith ganlyniadol ar addysg ac iechyd.</p> <p><u>Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)</u></p> <p>Mae Ysgol Gynradd Plasyfelin yn gwasanaethu Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHlau) Morgan Jones. O'r pedair ardal hyn, mae Morgan Jones 2 yn y 15^{fed} safle allan o 110 o ACEHlau ar draws Caerffili; mae ardaloedd 1, 3 a 4 yn safle 76, 82 a 66, yn y drefn honno.</p> <p>Mae data prydau ysgol am ddim ar gyfer Plasyfelin yn dangos bod 30.8% o ddisgyblion yn cael prydau ysgol am ddim o gymharu ag 20% ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chymru gyfan.</p>
<p>Anfantais Economaidd-gymdeithasol <i>(Pa effaith gronol fydd y cynnig yn ei chael ar bobl neu grwpiau oherwydd eu nodwedd(ion) (g)warchoddedig neu nodwedd agored i niwed neu am eu bod eisoes dan anfantais)</i></p>	<p>Cadarnhaol Mae Ysgol Gynradd Plasyfelin yn gwasanaethu Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) Morgan Jones 2. Mae'r ardal hon ychydig y tu allan i'r 10% uchaf o ACEHlau sydd dan yr anfantais gymdeithasol fwyaf yng Nghaerffili a Chymru. Felly bydd y cynnig i adeiladu ysgol newydd ar safle Plasyfelin yn cael effaith</p>		<p><u>Deddf Cydraddoldeb 2010</u></p> <p><u>Deddf Cymru 2017 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol</u></p> <p><u>Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldebau</u></p>

gadarnhaol ar gymunedau sydd dan anfantais gymdeithasol yng Nghaerffili.

Cadarnhaol
Mae sicrhau bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau posibl o seilwaith ac adnoddau yn un o ragofynion cyllid Llywodraeth Cymru fel bod hyblygrwydd i le a chyfleusterau fod ar gael i'w defnyddio fel asedau cymunedol. Bydd hyn yn cynnwys creu parthau diogel mewn rhannau o'r ysgol, gan gynnwys y neuadd ac ystafell ddosbarth amlbwrpas, at ddefnydd y gymuned. Er nad yw dyluniad yr adeilad newydd arfaethedig wedi'i gwblhau eto, yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Cabinet i barhau, mae trafodaethau wedi cynnwys defnydd cymunedol o'r ysgol yn ystod oriau'r ysgol, lle y bo'n briodol ac yn unol ag amserlen y cwricwlwm, ac ar ôl oriau ysgol.

[economaidd-gymdeithasol](#)

Mae Adran 45 o Ddeddf Cymru 2017 yn diwygio Rhan 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 er mwyn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gychwyn y Ddyletswydd hon yng Nghymru. Mae Gweinidogion Cymru wedi defnyddio'r pŵer hwn i gychwyn Adrannau 1 i 3 o Ddeddf 2010 yng Nghymru – y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

Mae'r Ddyletswydd yn gosod cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol i roi sylw priodol i'r angen i leihau anghydraddoldeb o ran canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

Yn yr achos hwn, y prif anghydraddoldeb o ran canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol y mae angen ei ystyried yw "Addysg – y gallu i fod yn wybodus".

[A yw Cymru'n Decach? – Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol](#)
(Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018)
Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cydnabod bod anfantais economaidd-

			<p>gymdeithasol yn cael effaith ganlyniadol ar addysg ac iechyd.</p> <p><u>Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)</u></p> <p>Mae Ysgol Gynradd Plasyfelin yn gwasanaethu Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHlau) Morgan Jones. O'r pedair ardal hyn, mae Morgan Jones 2 yn y 15^{fed} safle allan o 110 o ACEHlau ar draws Caerffili; mae ardaloedd 1, 3 a 4 yn safle 76, 82 a 66, yn y drefn honno.</p> <p>Mae data prydau ysgol am ddim ar gyfer Plasyfelin yn dangos bod 30.8% o ddisgyblion yn cael prydau ysgol am ddim o gymharu ag 20% ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chymru gyfan.</p>
--	--	--	--

4. Cynllun Corfforaethol – Amcanion Llesiant y Cyngor

(Sut mae eich cynnig yn cyflawni yn erbyn unrhyw rai o Amcanion Llesiant y Cyngor neu bob un ohonynt? Mae'r amcanion hyn, yn eu tro, yn cefnogi nodau llesiant cenedlaethol Cymru fel y'u hamlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. A oes unrhyw effeithiau (cadarnhaol, negyddol neu niwtral? Os oes effeithiau negyddol, sut mae'r rhain wedi cael eu lliniaru?) [Amcanion Llesiant](#)

<p>Amcan 1 - Gwella cyfleoedd addysg i bawb</p>	<p><u>Ysgolion yr 21ain Ganrif - Caerffili</u> Dolen i raglen buddsoddi cyfalaf y Cyngor ar gyfer ysgolion.</p> <p>Cadarnhaol Mae'r cynnig yn bwriadu cynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr ifanc oed meithrin a chynradd ac i'r gymuned gael mynediad i gyfleusterau addysgol o ansawdd uchel. Mae'r cynnig yn ymwneud â chodi adeilad newydd, mwy o faint, yn lle ysgol gynradd bresennol Plasyfelin i'w leoli ar dir safle presennol yr ysgol ac i gynnwys mwy o le ar gyfer hyd at 420 o ddisgyblion, yn ogystal â darpariaeth feithrin â 60 o leoedd, cyfleusterau cymunedol a chwaraeon amldeffnydd ychwanegol a darpariaeth gofal plant.</p> <p>Cadarnhaol Mae'r cynnig hwn yn bwriadu codi ysgol newydd yn lle casgliad o adeiladau sydd dros 50 oed ac, ar raddfa o A i D, ystyrir bod cyflwr yr adeiladau presennol yn C+ ynghyd â rhai adeiladau dros dro. Bydd ysgol newydd, addas at y diben ac o safon yr 21^{ain} ganrif yn cael ei chodi yn lle'r rhain i gyd. Ymhlith y manteision, bydd cael gwared ar adeiladau CLASP a'r pryderon cysylltiedig sy'n ymwneud â'r asbestos ynddynt. Bydd adeilad newydd hefyd yn cael gwared ar yr ôl-groniad cyfredol o waith cynnal a chadw, sy'n werth £559,000 ar hyn o bryd.</p>
<p>Amcan 2 - Galluogi cyflogaeth</p>	<p>Cadarnhaol Fel rhan o'r gofynion ariannu ar gyfer holl gynigion Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod Budd i'r Gymuned yn ofyniad craidd mewn unrhyw broses gaffael sy'n ymwneud â dyfarnu contractau ac felly caiff ei sgorio fel rhan o'r gwerthusiad Ansawdd. Mae hyn yn cynnwys nifer o dargedau ynghylch prosesau recriwtio a hyfforddi lleol, cadwyni cyflenwi, mentrau cymunedol ac addysgol.</p>
<p>Amcan 3 - Mynd i'r afael ag argaeledd, cyflwr a chynaliadwyedd cartrefi ledled y fwrdeistref sirol a rhoi cyngor, cymorth neu gefnogaeth er mwyn helpu i wella llesiant pobl</p>	<p>Ddim yn gymwys i'r cynnig hwn</p>
<p>Amcan 4 - Hybu system drafnidiaeth fodern, integredig a chynaliadwy sy'n gwella cyfleoedd, yn hybu ffyniant ac yn lleihau effeithiau andwyol ar yr amgylchedd</p>	<p>Niwtral Mae dyletswydd Statudol ar yr Awdurdod i ddarparu trafnidiaeth am ddim i ddisgyblion i'w hysgol addas agosaf os ydynt yn byw y tu hwnt i "bellter cerdded" i'r ysgol honno. Caiff yr holl ddisgyblion eu hasesu yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Fodd bynnag, mae'r</p>

	<p>Awdurdod yn cynnig polisi mwy hael na'r hyn y mae'r Mesur yn ei wneud yn ofynnol yn statudol. Rhagwelir y cynhelir y <i>status quo</i> gan y bydd yr adeilad newydd ar yr un safle â'r ysgol bresennol.</p> <p>Cadarnhaol Gan y bydd yr adeilad newydd ar yr un safle â'r ysgol bresennol, mae'n golygu na fydd y datblygiad yn tarfu ar ddalgylchoedd na threfniadau trafndiaeth.</p>
<p>Amcan 5 - Creu bwrdeistref sirol sy'n cefnogi ffordd iach o fyw yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.</p>	<p><u>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymru Lewyrchus • Cymru sy'n Fwy Cyfartal • Cymru Iachach • Cymru o Gymunedau Cydlynus <p>Cadarnhaol Bydd darparu cyfleusterau chwaraeon modern fel rhan o'r adeilad newydd yn helpu'r disgyblion a'r gymuned leol i fod yn rhan o Gymru iachach ac yn helpu i greu cymunedau cydlynus.</p> <p>Cadarnhaol Bydd darparu cyfleusterau addysgol sy'n addas i'r dyfodol yn gwella deilliannau addysgol a chanlyniadau bywyd disgyblion presennol Ysgol Gynradd Plasyfelin a disgyblion y dyfodol. Bydd y cyfleuster yn gwbl hygyrch i'r holl ddysgwyr waeth beth fo unrhyw anfantais economaidd-gymdeithasol benodol, gan alluogi'r plant sy'n mynychu'r ysgol i ffynnu a chael effaith ganlyniadol gadarnhaol ar y plant, eu teuluoedd a'r ardal leol.</p>
<p>Amcan 6 - Helpu dinasyddion i barhau i fod yn annibynnol a gwella eu llesiant.</p>	<p>Cadarnhaol Mae'r cynnig yn cynnwys datblygu darpariaeth feithrin Cyfnod Sylfaen a bydd yn sicrhau darpariaeth barhaus rhwng y dosbarth meithrin a'r adran gynradd gan wneud y broses drosglwyddo yn hawdd i'r disgyblion ac i rieni.</p> <p>Cadarnhaol Bydd darparu gofal plant cofleidiol, clybiau ar ôl ysgol ac yn ystod y</p>

4a. Cysylltiadau ag unrhyw bolisi perthnasol arall gan y Cyngor

(Sut mae eich cynnig yn cyflawni yn erbyn unrhyw bolisi perthnasol arall gan y Cyngor?)

Mae'r cynnig yn cyfrannu at y Strategaethau canlynol:

- **Strategaeth Uchelgeisiau a Rennir (2019-2022)**

Bydd y cynnig hwn yn cyflawni uchelgais y Cyngor i roi'r cyfleoedd gorau mewn bywyd i bob dysgwr drwy ddarparu addysgu, dysgu ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel yn ein hysgolion trawiadol sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif.

- **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerffili (2018-2020)**

Mae ymrwymiad y Cyngor i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn flaenoriaeth, fel y gwelir ym Mand B o raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru. Gweledigaeth y cyngor yw sicrhau mynediad cyfartal drwy hyrwyddo a chefnogi datblygiad addysg gynhwysol ac ymrwymo i ddarparu addysg a gwasanaethau o'r ansawdd gorau posibl yn unol â'r adnoddau sydd ar gael. At hynny, drwy baratoi ysgolion a darparwyr addysg, y nod yw gwella safonau yn y Gymraeg a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith teuluoedd, cymunedau a gweithleoedd.

- **Strategaeth Iaith Gymraeg Caerffili**

Y llinell sylfaen ar gyfer y strategaeth yw proffil iaith cyfredol y fwrdeistref. Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd gan fwrdeistref sirol Caerffili 19,251 o siaradwyr Cymraeg (11.2% o'r boblogaeth) gyda 12% yn siarad Cymraeg yn llai rhugl ac, yn ôl ffigurau'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion o fis Ionawr 2016, roedd 16.9% o'r boblogaeth ysgol gynradd a 12.7% o'r boblogaeth ysgol uwchradd mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r strategaeth hon felly yn cynnig cynyddu'r targed o ran nifer y siaradwyr Cymraeg o leiaf 3% rhwng 2017 a 2022. Mae'r targed hwn felly'n golygu y bydd o leiaf 14.2% o boblogaeth bwrdeistref sirol Caerffili yn siarad Cymraeg erbyn Cyfrifiad 2021.

- **Cynllun Cydraddoldeb Strategol Caerffili**

Mae hon yn ddogfen statudol o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 ac mae'r cynllun pedair blynedd hwn yn esbonio'n syml yr hyn y mae pob un o'r materion cydraddoldeb yn ei olygu mewn gwirionedd ac o dan ba ddeddfwriaeth ehangach y mae gennym gyfrifoldebau fel Cyngor. Mae'n tynnu sylw at gysylltiadau â deddfwriaeth a rheoliadau sy'n cwmpasu Safonau'r Gymraeg a materion Hawliau Dynol a sut mae'n cefnogi pedwar o saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru, sef Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r

Gymraeg yn ffynnu.

- **Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant**

Adroddiad sy'n dwyn ynghyd amrywiaeth o ddata a gwybodaeth wahanol er mwyn datblygu darlun o'r farchnad gofal plant bresennol a nodi a oes unrhyw fylchau yn y cyflenwad.

- **Strategaeth Datgarboneiddio CCBC**


Mae gan CCBC hanes rhagorol o weithredu mentrau sydd o fudd i'r amgylchedd. Mae'r awdurdod wedi lleihau allyriadau carbon trwy fuddsoddi mewn technolegau sy'n lleihau'r defnydd ac rydym wedi gweithio'n galed i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd lleihau carbon gyda'n staff, disgyblion a thrigolion ledled y fwrdeistref sirol. Bydd cynigion yn ystyried y ffordd orau o gyflawni'r agenda hon fel rhan o'r broses adeiladu a materion gweithredol yn y dyfodol.





Bydd defnyddio cynllun newydd yr Asesiad Effaith Integredig yn helpu i gefnogi'r Cyngor ymhellach i wneud penderfyniadau effeithiol ac ar sail gwybodaeth wrth sicrhau y cydymffurfir ag amrywiaeth o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys:

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol – Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Ymgynghoriad Statudol v Athrawiaeth Disgwyliad Dilys ac Egwyddorion Gunning

5. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Y Pum Ffordd o Weithio

(Fe'u gelwir yn egwyddorion datblygu cynaliadwy hefyd. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried sut mae unrhyw gynnig yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio fel llinell sylfaen)

Ffyrdd o Weithio	Sut rydych wedi defnyddio'r Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy wrth lunio'r cynnig?
Hirdymor 	Bydd ailadeiladu ac ehangu Ysgol Gynradd Plasyfelin, a ddisgrifir gan Estyn fel “ysgol dda”, yn cynnig llwyfan, drwy ddarparu adeilad newydd pwrpasol ac addas at y diben, i'r ysgol symud tuag at ragoriaeth. Bydd seilwaith yr ysgol newydd yn sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion, teuluoedd a'r gymuned ehangach wneud y defnydd gorau o'r cyfleuster.

<p>Atal</p> 	<p>Bydd darparu Ysgol Gynradd Plasyfelin newydd a phwrpasol ar gyfer dysgwyr yn nalgylch yr ysgol bresennol yn galluogi disgyblion i fanteisio ar gyfleuster yr 21^{ain} ganrif a chael cyfleoedd dysgu wedi'u teilwra a fydd yn gwella eu cynnydd drwy'r cwricwlwm cenedlaethol newydd i Gymru.</p>
<p>Integreiddio</p> 	<p>Bydd y cynnig i ailadeiladu Ysgol Gynradd Plasyfelin yn effeithio ar Nodau Llesiant:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymru Lewyrchus • Cymru sy'n Fwy Cyfartal • Cymru Iachach • Cymru o Gymunedau Cydlynus <p>Bydd y cyfleuster newydd yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion, teuluoedd a'r gymuned ehangach.</p>
<p>Cydweithredu</p> 	<p>Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda staff yr ysgol ac o amrywiaeth o adrannau i lywio llawer o'r cynigion ar gyfer yr adeilad newydd a'i gyfleusterau. Bydd hyn yn parhau ac yn cynnwys gweithgareddau ymgysylltu â'r dysgwyr er mwyn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn y broses ddatblygu.</p> <p>Mae gweithgor trawsadrannol yn cynnwys cynrychiolwyr o Dîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, y Gyfarwyddiaeth Addysg, Chwaraeon a Hamdden, Gwasanaethau Cynhwysiant, Gwasanaethau Eiddo, Cyllid ac Iechyd a Diogelwch wedi gweithio drwy'r broses opsiynau o lunio rhestr hir i argymhell ffordd ymlaen, sef y cynnig hwn.</p>
<p>Cyfranogiad</p> 	<p>Nid yw'r cynnig hwn wedi'i gwmpasu gan God Trefniadaeth Ysgolion (2018) gan y bydd yr adeilad newydd ar y safle presennol ac ni fydd yn ehangu'r capasiti presennol fwy na 25%.</p> <p>Caiff yr ymgynghoriad ei gynnal gan ddilyn "Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu" a "Sbectwm Ymgysylltu" Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Caiff dull ymgynghori amlgyfrwng ei ddatblygu, wedi'i lywio gan y canllawiau yn Fframwaith Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd y broses ymgynghori yn adlewyrchu'r prosesau a amlinellir yn Adran 3 o God Trefniadaeth Ysgolion 2018.</p> <p>Caiff Llais y Dysgwr ei gofnodi fel rhan o'r broses hon hefyd.</p> <p>Ymgynghoriad Cynllunio Bydd proses ar wahân ar gyfer gwneud cais cynllunio a fydd yn ymdrin â nifer o ystyriaethau cynllunio perthnasol. Bydd y broses hon yn cynnig rhagor o gyfleoedd i bartïon â diddordeb gymryd rhan ac ymgysylltu.</p>

6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nodau Llesiant	A yw'r cynnig yn cynyddu ein cyfraniad at y Nod Llesiant gymaint â phosibl ac, os felly, sut?
<p>Cymru Lewyrchus <i>Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas</i></p>	<p>Mae gweithlu medrus sydd wedi'i addysgu'n dda yn galluogi unigolion i fyw bywydau llwyddiannus a chyfrannu at yr economi ehangach.</p> <p>Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r Nod Llesiant hwn drwy:</p> <p>Carbon Ymgorfforedig / Carbon Gweithredol Nod Rhaglen Band B Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yw adeiladu ysgolion newydd, ehangu ysgolion, uno ysgolion, adleoli ysgolion ac adnewyddu ysgolion, sydd i gyd â'r potensial i gefnogi strategaethau Llywodraeth Cymru a'r Cyngor ar ddatgarboneiddio a darparu model cyflawni newydd. Fel y cyfryw, caiff sectorau gweithlu medrus a gwybodus eu cynnwys i gyflawni'r canlyniad hwn.</p> <p>Rhagolygon ar gyfer y Dyfodol: Bydd ysgol newydd bwrpasol ar gyfer yr 21^{ain} ganrif a ddylunnir i gyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol newydd a'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl ifanc yn darparu'r sylfaen ar gyfer datblygu gweithlu medrus ac addysgedig sydd ei angen i danategu twf economaidd yng Nghymru.</p>
<p>Cymru Gydnerth <i>Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd)</i></p>	<p>Bydd pobl ifanc sydd wedi datblygu llesiant cadarnhaol a ffyrdd iach o fyw yn gallu ymdopi'n well â'r newidiadau a ddaw yn y dyfodol a, thrwy hynny, wneud Cymru yn genedl fwy cydnerth.</p> <p>Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r Nod Llesiant hwn drwy: Cael gwared ar hen adeiladau a chodi rhai newydd a fydd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion BREEAM a thrwy hynny'n fwy cynaliadwy ac ecogyfeillgar gyda llai o effaith ar newid yn yr hinsawdd.</p> <p>Bydd datblygu ysgol gynradd o'r radd flaenaf sy'n addas ar gyfer yr 21^{ain} ganrif yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion ac, fel yr awgrymodd Estyn, bydd amgylchedd dysgu o</p>

	<p>ansawdd uchel o'r natur hon yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu, llesiant a deilliannau disgyblion.</p>
<p>Cymru Iachach <i>Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol</i></p>	<p>Mae galluogi pobl i ddatblygu ffyrdd iach o fyw a llesiant cadarnhaol yn arwain at fuddiannau hirdymor cadarnhaol ar gyfer eu hiechyd eu hunain a chymdeithas yn gyffredinol.</p> <p>Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r Nod Llesiant hwn drwy:</p> <p>Bydd yr adeiladau newydd arfaethedig yn darparu ar gyfer 420 o ddysgwyr yn ogystal â 60 o leoedd Meithrin.</p> <p>Bydd y cynnig ar gyfer Canolfan addas at y diben, wedi'i hailfodelu yn darparu amgylchedd addysgu a dysgu ysgogol gyda chyfleusterau'r 21^{ain} Ganrif, gan gynnwys cyfleusterau TGCh gwell, sy'n canolbwyntio ar ddysgu, hunan-barch a llesiant pob disgybl. Bydd gan yr adeilad newydd ardaloedd dysgu gwell ac yn cynnig ardaloedd chwaraeon amldefnydd a chyfleusterau cymunedol.</p> <p>Bydd y cyfleusterau hyn ar gael i'r gymuned ar adegau addas, yn unol ag amserlen y cwricwlwm, ac ar ôl oriau ysgol.</p> <p>Bydd amgylchedd gwell yr ysgol newydd yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant meddyliol y disgyblion. Bydd y cyfleusterau chwaraeon wedi'u huwchraddio yn helpu'r disgyblion i ddatblygu ffordd iach o fyw a chadw'n heini. Bydd y cyfleusterau hyn ar gael i'r gymuned eu defnyddio hefyd ac felly byddant yn helpu i gefnogi ffyrdd iach o fyw yn y gymuned leol.</p>
<p>Cymru sy'n Fwy Cyfartal <i>Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd)</i></p>	<p>Dylai pawb yng Nghymru allu byw eu bywydau a chyflawni eu potensial.</p> <p>Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r Nod Llesiant hwn drwy:</p> <p>Defnydd Cymunedol: Bydd y sawl fydd yn mynychu, yn defnyddio ac yn gweithio yn yr adeilad yn cael budd o gyfleuster arloesol yr 21^{ain} Ganrif, sy'n addas at y diben. Yn ogystal â hyn, mae'r cynnig yn bwriadu ehangu mynediad i'r safle newydd er mwyn galluogi'r gymuned i'w ddefnyddio a chynnig darpariaeth gofal plant.</p>

Fel rhan o gylch gwaith Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, rhaid ystyried y posibilrwydd o rannu cyfleusterau'r ysgol â'r gymuned ehangach. Bydd y prosiect arfaethedig yn ystyried y dyhead i annog a hwyluso'r gymuned i ddefnyddio'r ased mewn ffordd ddiogel ac ymarferol. I'r perwyl hwn, bydd y broses ddylunio yn ceisio cynnwys mesurau i'r gymuned allu defnyddio'r cyfleusterau chwaraeon yn ddiogel ar adegau addas ac yn unol ag amserlen y cwricwlwm.

Caiff y seilwaith ar gyfer y Wi-Fi a Thechnoleg Gwybodaeth ei sefydlu i gefnogi mynediad cyhoeddus a defnydd gan y gymuned.

Effaith ar ysgolion eraill:

Ni ddylai cynyddu'r nifer derbyn lai na 25% gael llawer o effaith ar ysgolion cyfagos, ond mae'n cynnig rhywfaint o gapasiti i ateb y galw a ragwelir yn y dyfodol.

Bydd yr ysgol newydd sbon hon ar gyfer yr 21^{ain} ganrif yn darparu digon o leoedd ar gyfer y dalgylch fel y gall pob darpar ddisgybl yn yr ardal, ni waeth beth fo'i gefndir na'i amgylchiadau, fanteisio ar y cyfleoedd dysgu ac addysgu a'r cyfleusterau ardderchog yn yr ysgol newydd.

Niferoedd Gwirioneddol ac Amcanestynedig sy'n Mynychu		
Blwyddyn	Nifer ar y Gofrestr	Heb gynnwys y Dosbarth Meithrin
2020	306	271
2021	301	266
2022	282	245
2023	287	250
2024	299	263
2025	322	286
2026	346	310

Mae chwe ysgol gynradd Saesneg gymunedol a dwy ysgol gynradd Gymraeg gymunedol yn agos at y safle presennol sy'n cynnwys Ysgol Gynradd Cwrt Rawlin, Ysgol Gynradd Hendredenny, Ysgol Fabanod Hendre, Ysgol Iau Hendre, Ysgol Gynradd St. James, Ysgol y Twyn, YGG Caerffili ac YGG y Castell.

Bydd cynyddu'r nifer derbyn â swm y gellir ei reoli yn caniatáu twf Plasyfelin tra na fydd yn gor-ddatblygu'r ddarpariaeth i ansefydlogi darpariaethau addysgol eraill sydd eisoes wedi'u

	sefydlu yn yr ardal.
<u>Nodau Llesiant</u>	A yw'r cynnig yn cynyddu ein cyfraniad at y Nod Llesiant gymaint â phosibl ac, os felly, sut?
<p>Cymru o Gymunedau Cydlynus <i>Cymunedau atyniadol, hyfryw a diogel sydd â chysylltiadau da</i></p>	<p>Dylid ystyried bod addysg pob person ifanc, ni waeth beth fo'i anghenion, yn gynhwysol; bydd cymunedau lleol yn cael budd o'r buddsoddiad yn rhaglen ysgolion yr 21^{ain} ganrif; mae'r ddau gynnig hyn yn sail i'r ymdeimlad o berthyn a chydlyniant mewn cymunedau ar draws Caerffili.</p> <p>Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r Nod Llesiant hwn drwy:</p> <p>Yr Ysgol: Mae Ysgol Gynradd Plasyfelin yn darparu ar gyfer disgyblion oed cynradd o ardal Parc Churchill yng Nghaerffili. Mae'n gymuned gwbl gynhwysol lle mae'r holl ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae lefelau gofal, cymorth ac arweiniad, addysgu a dysgu'r ysgol i gyd yn dda ac, o ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr brwdfrydig. Nod y cynnig yw sicrhau ein bod yn parhau i adeiladu ar yr arweinyddiaeth dda ac effeithiol iawn yn yr ysgol, a'i gradd dda gan Estyn, drwy ei hadleoli i gyfleuster newydd, addas at y diben ar yr un safle â'r ysgol bresennol ac felly aros yn yr un ardal a chadw dalgylch presennol yr ysgol.</p> <p>Fel y mae ESTYN wedi'i ddangos, mae cysylltiad amlwg rhwng adeiladau ysgolion newydd gwell a pherfformiad gwell. Mae'r Cyngor o'r farn mai'r cynnig hwn yw'r cyfle gorau i ddiogelu a chynnal safonau addysgol ar gyfer y dyfodol ac mae'n ffordd o wella drwy fuddsoddi'n sylweddol mewn cyfleusterau parhaol. Bydd hyn yn cynnig amgylchedd addysgu a dysgu ysgogol gyda chyfleusterau'r 21^{ain} Ganrif, gan gynnwys cyfleusterau TGCh a chwaraeon gwell a mynediad estynedig i'r gymuned. Bydd hyn oll yn canolbwyntio ar ddysgu, hunan-barch a llesiant pawb.</p> <p>Teithio Llesol:</p> <p>Nod yr Awdurdod yw darparu system drafnidiaeth a fydd yn ceisio sicrhau bod disgyblion yn gallu cael mynediad at addysg yn ddiogel ac yn gyfforddus. Mae'r lleoliad newydd arfaethedig ar yr un safle â'r ysgol bresennol. Ni fydd y cynnig yn effeithio ar drafnidiaeth a threfniadau teithio llesol felly.</p>

<p>Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu</p> <p><i>Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden</i></p>	<p>Mae diwylliant y wlad yn cydnabod ac yn dathlu dwyieithrwydd ym mhob agwedd ar fywyd pob dydd.</p> <p>Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r Nod Llesiant hwn drwy:</p> <p>Treftadaeth Ddiwylliannol a'r Gymraeg yn y Gymuned: Mae'r Awdurdod Lleol yn gwbl ymwybodol o'i rwymedigaethau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru ac mae'r mesur yn gosod dyletswyddau ar gyrff i ddefnyddio'r Gymraeg, a'r hawliau sy'n deillio o orfodi'r dyletswyddau hynny, sy'n galluogi siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith wrth ymdrin â'r cyrff hynny (fel gwasanaethau a ddarperir gan y cyrff hynny).</p> <p>Comisiynydd y Gymraeg (Safonau a Strategaeth Pum Mlynedd)</p> <p>Drwy hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ei ysgolion cyfrwng Saesneg, mae'r Cyngor yn dangos ei ymrwymiad i weithio tuag at sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>Mae diwylliant y wlad yn cydnabod ac yn dathlu dwyieithrwydd ym mhob agwedd ar fywyd pob dydd a, thrwy ddarparu cyfleoedd Cymraeg ym maes addysg, mae'n cefnogi disgyblion, teuluoedd a'r gymuned ehangach i ddefnyddio'r Gymraeg yn weithredol. Yn Ysgol Gynradd Plas-y-felin, noda Estyn fod disgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu sgiliau Cymraeg wrth iddynt symud drwy'r ysgol a bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu ysgrifennu'n estynedig mewn amrywiaeth addas o genres erbyn diwedd Blwyddyn 6.</p> <p>Ceir rhagor o fanylion yn adran 7 o'r ddogfen hon.</p>
<p>Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang</p> <p><i>Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang</i></p>	<p>Mae'r Gymraeg yn rhan gynhenid o lesiant Cymru gyfan ac mae ei hunaniaeth a'i hiaith unigryw yn cyfoethogi'r gymuned fyd-eang o ddiwylliannau amrywiol.</p> <p>Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r Nod Llesiant hwn drwy:</p> <p>Effaith ar y Gymuned:</p> <p>Bydd y prosiect arfaethedig yn ystyried y dyhead i annog a hwyluso'r gymuned i</p>

ddefnyddio'r ased. I'r perwyl hwn, bydd y broses ddylunio yn ceisio cynnwys mesurau i'r gymuned allu defnyddio adeilad newydd yr ysgol a'r cyfleusterau chwaraeon yn ddiogel ar adegau addas ac yn unol ag amserlen y cwricwlwm. Bydd y safle newydd yn hygyrch ac yn creu cyfleoedd i integreiddio'r cyfleuster yn y gymuned gyda chyfleoedd i'r gymuned ei ddefnyddio yn helpu i uwchsgilio pobl.

Budd i'r Gymuned:

Fel rhan o'r gofynion ariannu ar gyfer holl gynigion Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod Budd i'r Gymuned yn ofyniad craidd mewn unrhyw broses i gaffael contractau ac felly caiff ei sgorio fel rhan o'r gwerthusiad Ansawdd. Mae hyn yn cynnwys nifer o dargedau ynghylch prosesau recriwtio a hyfforddi lleol, cadwyni cyflenwi, mentrau cymunedol ac addysgol.

7. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg

(Mae Mesur y Gymraeg 2011 a Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi 'sylw priodol' i'r effaith gadarnhaol neu negyddol y gall cynnig ei chael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg) *insert link to WL*

Commissioners Policy Making Standards Guidance



Gofyniad	A yw'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut?	Os oes effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?	Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r safbwynt hwn? <i>e.e. y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, Nodyn Cyngor Technegol 20, y Cynllun Datblygu Lleol, Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion</i>
<p>Cysylltiadau â Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a Strategaeth Cymraeg Pum Mlynedd 2017-2022 a Phroffil Ieithoedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili</p>	<p>Cadarnhaol Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu sgiliau Cymraeg wrth iddynt symud drwy'r ysgol.</p> <p>Cadarnhaol Ymgysylltir â Fforwm Cymraeg Caerffili fel rhan o'r broses o</p>	<p>Ddim yn gymwys</p>	<p>Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (legislation.gov.uk)</p> <p>Deddfwriaeth allweddol sy'n rhoi statws cyfreithiol swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru.</p> <p>Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerffili 2017-2020</p>

	<p>roi'r cynnig hwn ar waith er mwyn sicrhau bod pob sefydliad perthnasol yn rhan o'r cynlluniau i hyrwyddo'r Gymraeg.</p>		<p><u>Caerffili - Strategaeth Iaith Gymraeg 2017-2022</u></p> <p>Y targed i gynyddu'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg 3% dros gyfnod y strategaeth</p> <p><i>Maes strategol 2 -</i></p> <p>Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc a gwella eu hymwybyddiaeth o werth y Gymraeg.</p> <p><i>Maes strategol 5 -</i></p> <p>Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle drwy alluogi a chefnogi staff rhugl, a staff sy'n dysgu, i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.</p> <p><u>Nodyn Cyngor Technegol 20 – Cynllunio a'r Gymraeg</u></p> <p>Diben TAN20 yw cynnig canllawiau ar sut y gellir rhoi ystyriaeth briodol i'r Gymraeg yn y system gynllunio ac ar gydymffurfio â gofynion cynllunio a deddfwriaeth berthnasol arall</p> <p><u>Strategaeth y Gymraeg – Cymraeg 2050.</u></p> <p>Mae'r strategaeth yn cydnabod yr angen i roi cyfleoedd hawdd a</p>
--	--	--	---

			<p>hygyrch i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio eu sgiliau mewn lleoliadau cymdeithasol ac yn y gwaith.</p> <p><u>Menter Iaith Caerffili: Proffil Iaith 2016</u></p> <p>Mae'r proffil hwn yn ystyried safle'r Gymraeg ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, a'r ffordd y mae siaradwyr Cymraeg yn yr ardal yn defnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau.</p> <p><u>Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)</u></p> <p>Gwybodaeth ystadegol ynglŷn â nifer y disgyblion ar lefel awdurdod lleol a chyfrwng iaith eu haddysg:</p> <p>Ffigurau Rhanbarth Caerffili (set ddata 2019/20)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfrwng Cymraeg - 4,676 • Cyfrwng Saesneg - 23,126
<p>Cydymffurfio â <u>Safonau'r Gymraeg</u>. <i>Safonau 88 - 93 yn benodol</i></p>	<p>Cadarnhaol</p> <p>Ar hyn o bryd, gellir darparu ar gyfer gofynion i gynnal unrhyw gyfarfodydd gyda'r ysgol i drafod darparu addysg drwy ddewis iaith y plentyn / teulu a'r</p>	<p>Bydd y broses yn ystod y cyfnod Ymgynghori a'r cyfnod Gwrthwynebu yn sicrhau y caiff ymgynghoreion allweddol eu</p>	<p><u>Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (legislation.gov.uk)</u></p> <p>Deddfwriaeth allweddol sy'n rhoi statws cyfreithiol swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru.</p> <p><u>Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerffili 2017-</u></p>

	<p>hawl sydd gan bobl i hyn o dan Fesur y Gymraeg. Mae hyn yn creu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac yn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>Cadarnhaol</p> <p>Caiff yr holl ddogfennaeth, gan gynnwys y wefan sy'n ymwneud â'r cynnig, ei chynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ymhellach a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>Cadarnhaol</p> <p>Bydd yn bosibl anfon a derbyn yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad, a gwrthwynebiadau, yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	<p>targed, fel yr amlinellir yn Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili; bydd y broses yn cynnig cyfleoedd i unigolion ymateb yn eu dewis iaith – Cymraeg neu Saesneg.</p> <p>Yn ogystal, ymgynghorir â phlant a phobl ifanc y mae'r cynnig hwn yn effeithio arnynt drwy sesiynau gwybodaeth ac adborth wedi'u targedu. Caiff fersiynau o'r ddogfennaeth sy'n addas i blant eu cynhyrchu hefyd a bydd y rhain ar gael yn Gymraeg neu'n Saesneg.</p>	<p>2020</p> <p>Caerffili - Strategaeth Iaith Gymraeg 2017-2022</p> <p>Y targed i gynyddu'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg 3% dros gyfnod y strategaeth</p> <p><i>Maes strategol 2 -</i></p> <p>Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc a gwella eu hymwybyddiaeth o werth y Gymraeg.</p> <p><i>Maes strategol 5 -</i></p> <p>Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle drwy alluogi a chefnogi staff rhugl, a staff sy'n dysgu, i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.</p> <p>Nodyn Cyngor Technegol 20 – Cynllunio a'r Gymraeg</p> <p>Diben TAN20 yw cynnig canllawiau ar sut y gellir rhoi ystyriaeth briodol i'r Gymraeg yn y system gynllunio ac ar gydymffurfio â gofynion cynllunio a deddfwriaeth berthnasol arall</p> <p>Strategaeth y Gymraeg – Cymraeg 2050.</p> <p>Mae'r strategaeth yn cydnabod yr</p>
--	--	--	---

			<p>angen i roi cyfleoedd hawdd a hygyrch i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio eu sgiliau mewn lleoliadau cymdeithasol ac yn y gwaith.</p> <p><u>Menter Iaith Caerffili: Proffil Iaith 2016</u></p> <p>Mae'r proffil hwn yn ystyried safle'r Gymraeg ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, a'r ffordd y mae siaradwyr Cymraeg yn yr ardal yn defnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau.</p> <p><u>Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)</u></p> <p>Gwybodaeth ystadegol ynglŷn â nifer y disgyblion ar lefel awdurdod lleol a chyfrwng iaith eu haddysg:</p> <p>Ffigurau Rhanbarth Caerffili (set ddata 2019/20)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfrwng Cymraeg - 4,676 • Cyfrwng Saesneg - 23,126
<p>Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. ei statws, y defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd pob dydd yn y gwaith / y gymuned</p>	<p>Cadarnhaol Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu sgiliau Cymraeg wrth iddynt symud drwy'r ysgol.</p>	<p>Ddim yn gymwys</p>	<p><u>Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (legislation.gov.uk)</u></p> <p>Deddfwriaeth allweddol sy'n rhoi statws cyfreithiol swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru.</p> <p><u>Cynllun Strategol Cymraeg</u></p>

	<p>Cadarnhaol</p> <p>Ar hyn o bryd, gellir darparu ar gyfer gofynion i gynnal unrhyw gyfarfodydd gyda'r ysgol i drafod darparu addysg drwy ddewis iaith y plentyn / teulu a'r hawl sydd gan bobl i hyn o dan Fesur y Gymraeg.</p> <p>Cadarnhaol</p> <p>Bydd yr holl arwyddion yn yr adeilad newydd arfaethedig yn ddwyieithog.</p> <p>Cadarnhaol</p> <p>Caiff yr ymgynghoriad ei gynnal yn ddwyieithog lle y bo hyn yn briodol a / neu lle y gwneir cais am hyn.</p>	<p>Mae gweithwyr yn y dderbynfa yn ateb y ffôn gan ddefnyddio cyfarchiad dwyieithog</p> <p>Bydd yr arwyddion yn ddwyieithog</p> <p>Wrth recriwtio staff newydd i'r ysgol, pwysleisir bod y gallu i gyflwyno'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhinwedd ddymunol.</p>	<p><u>mewn Addysg Caerffili 2017-2020</u></p> <p><u>Caerffili - Strategaeth Iaith Gymraeg 2017-2022</u></p> <p>Y targed i gynyddu'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg 3% dros gyfnod y strategaeth</p> <p><i>Maes strategol 2 -</i></p> <p>Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc a gwella eu hymwybyddiaeth o werth y Gymraeg.</p> <p><i>Maes strategol 5 -</i></p> <p>Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle drwy alluogi a chefnogi staff rhugl, a staff sy'n dysgu, i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.</p> <p><u>Nodyn Cyngor Technegol 20 – Cynllunio a'r Gymraeg</u> Diben TAN20 yw cynnig canllawiau ar sut y gellir rhoi ystyriaeth briodol i'r Gymraeg yn y system gynllunio ac ar gydymffurfio â gofynion cynllunio a deddfwriaeth berthnasol arall</p> <p><u>Strategaeth y Gymraeg – Cymraeg 2050.</u></p> <p>Mae'r strategaeth yn cydnabod yr</p>
--	---	--	---

			<p>angen i roi cyfleoedd hawdd a hygyrch i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio eu sgiliau mewn lleoliadau cymdeithasol ac yn y gwaith.</p> <p>Menter Iaith Caerffili: Proffil Iaith 2016</p> <p>Mae'r proffil hwn yn ystyried safle'r Gymraeg ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, a'r ffordd y mae siaradwyr Cymraeg yn yr ardal yn defnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau.</p> <p>Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)</p> <p>Gwybodaeth ystadegol ynglŷn â nifer y disgyblion ar lefel awdurdod lleol a chyfrwng iaith eu haddysg:</p> <p>Ffigurau Rhanbarth Caerffili (set ddata 2019/20)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfrwng Cymraeg - 4,676 • Cyfrwng Saesneg - 23,126
<p>Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg <i>e.e. staff, preswylwyr ac ymwelwyr</i></p>	<p>Cadarnhaol Wrth ystyried ehangu'r ddarpariaeth, bydd prosesau recriwtio a dethol yn adlewyrchu'r angen lleol ond hefyd yn cefnogi'r broses o</p>	<p>Cynigir darpariaeth Gymraeg ail iaith ar hyn o bryd.</p> <p>Mae'r prosesau Recriwtio a</p>	<p>Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (legislation.gov.uk)</p> <p>Deddfwriaeth allweddol sy'n rhoi statws cyfreithiol swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru.</p> <p>Cynllun Strategol Gymraeg mewn Addysg Caerffili 2017-</p>

	<p>greu swyddi.</p> <p>Cadarnhaol Bydd y cynnig yn creu cyfleoedd pellach i bobl ddefnyddio'r Gymraeg drwy weithgareddau pob dydd, gan gynnwys disgyblion ac athrawon.</p> <p>Cadarnhaol Mae'r Cyngor yn mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi'r staff drwy gynnig cyrsiau Cymraeg am ddim, a rhai sydd wedi'u teilwra i feysydd gwaith penodol. Byddai'r cynnig hwn yn cefnogi'r staff i fanteisio ar unrhyw ddarpariaeth, yn ôl yr angen.</p> <p>Cadarnhaol Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu sgiliau Cymraeg wrth iddynt symud drwy'r ysgol.</p> <p>Cadarnhaol Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn frwdfrydig i gemau a gweithgareddau Cymraeg. Maent yn ateb cwestiynau amdanynt eu hunain a</p>	<p>Dethol yn cynnwys y sgîl dymunol i gyflogi siaradwyr Cymraeg ar y safle.</p>	<p><u>2020</u></p> <p><u>Caerffili - Strategaeth Iaith Gymraeg 2017-2022</u></p> <p>Y targed i gynyddu'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg 3% dros gyfnod y strategaeth</p> <p><i>Maes strategol 2 -</i></p> <p>Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc a gwella eu hymwybyddiaeth o werth y Gymraeg.</p> <p><i>Maes strategol 5 -</i></p> <p>Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle drwy alluogi a chefnogi staff rhugl, a staff sy'n dysgu, i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.</p> <p><u>Nodyn Cyngor Technegol 20 – Cynllunio a'r Gymraeg</u></p> <p>Diben TAN20 yw cynnig canllawiau ar sut y gellir rhoi ystyriaeth briodol i'r Gymraeg yn y system gynllunio ac ar gydymffurfio â gofynion cynllunio a deddfwriaeth berthnasol arall</p> <p><u>Strategaeth y Gymraeg – Cymraeg 2050.</u></p> <p>Mae'r strategaeth yn cydnabod yr</p>
--	---	---	---

	<p>phynciau cyfarwydd, fel y tywydd, yn hyderus.</p> <p>Cadarnhaol Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 yn adeiladu'n dda ar y sylfaen Gymraeg gadarn hon.</p> <p>Maent yn trafod amrywiaeth eang o bynciau, gan ymestyn eu brawddegau drwy ddefnyddio esboniadau neu ddisgrifiadau syml, ac yn gofyn cwestiynau cynyddol gymhleth.</p> <p>Mae llawer yn datblygu eu sgiliau darllen Cymraeg yn briodol. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn Gymraeg mewn amrywiaeth addas o genres.</p>		<p>angen i roi cyfleoedd hawdd a hygyrch i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio eu sgiliau mewn lleoliadau cymdeithasol ac yn y gwaith.</p> <p>Menter Iaith Caerffili: Proffil Iaith 2016</p> <p>Mae'r proffil hwn yn ystyried safle'r Gymraeg ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, a'r ffordd y mae siaradwyr Cymraeg yn yr ardal yn defnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau.</p> <p>Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)</p> <p>Gwybodaeth ystadegol ynglŷn â nifer y disgyblion ar lefel awdurdod lleol a chyfrwng iaith eu haddysg:</p> <p>Ffigurau Rhanbarth Caerffili (set ddata 2019/20)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfrwng Cymraeg - 4,676 • Cyfrwng Saesneg - 23,126
<p>Sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg</p>	<p>Cadarnhaol</p> <p>Ar hyn o bryd, gellir darparu ar gyfer gofynion i gynnal unrhyw gyfarfodydd gyda'r ysgol i drafod darparu addysg drwy ddewis iaith y plentyn / teulu a'r</p>	<p>Cynigir darpariaeth Gymraeg ail iaith ar hyn o bryd</p>	<p>Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (legislation.gov.uk) Deddfwriaeth allweddol sy'n rhoi statws cyfreithiol swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru.</p> <p>Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerffili 2017-</p>

	<p>hawl sydd gan bobl i hyn o dan Fesur y Gymraeg.</p> <p>Cadarnhaol</p> <p>Caiff yr holl ddogfennaeth, gan gynnwys y wefan sy'n ymwneud â'r cynnig, ei chynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg</p> <p>Cadarnhaol</p> <p>Bydd yn bosibl anfon a derbyn yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad, a gwrthwynebiadau, yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>		<p><u>2020</u></p> <p><u>Caerffili - Strategaeth Iaith Gymraeg 2017-2022</u></p> <p>Y targed i gynyddu'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg 3% dros gyfnod y strategaeth</p> <p><i>Maes strategol 2 -</i></p> <p>Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc a gwella eu hymwybyddiaeth o werth y Gymraeg.</p> <p><i>Maes strategol 5 -</i></p> <p>Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle drwy alluogi a chefnogi staff rhugl, a staff sy'n dysgu, i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.</p> <p><u>Nodyn Cyngor Technegol 20 – Cynllunio a'r Gymraeg</u></p> <p>Diben TAN20 yw cynnig canllawiau ar sut y gellir rhoi ystyriaeth briodol i'r Gymraeg yn y system gynllunio ac ar gydymffurfio â gofynion cynllunio a deddfwriaeth berthnasol arall</p> <p><u>Strategaeth y Gymraeg – Cymraeg 2050.</u></p>
--	---	--	---

			<p>Mae'r strategaeth yn cydnabod yr angen i roi cyfleoedd hawdd a hygyrch i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio eu sgiliau mewn lleoliadau cymdeithasol ac yn y gwaith.</p> <p><u>Menter Iaith Caerffili: Proffil Iaith 2016</u></p> <p>Mae'r proffil hwn yn ystyried safle'r Gymraeg ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, a'r ffordd y mae siaradwyr Cymraeg yn yr ardal yn defnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau.</p> <p><u>Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)</u></p> <p>Gwybodaeth ystadegol ynglŷn â nifer y disgyblion ar lefel awdurdod lleol a chyfrwng iaith eu haddysg:</p> <p>Ffigurau Rhanbarth Caerffili (set ddata 2019/20)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfrwng Cymraeg - 4,676 • Cyfrwng Saesneg - 23,126
--	--	--	---

7a. Ar ôl ystyried yr effeithiau uchod, sut mae'r cynnig wedi cael ei ddatblygu fel bod effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, ar (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Angen a galw

Fel rhan o gynnig Ysgol Gynradd Plasyfelin, rydym yn bwriadu cefnogi'r agenda leol a chenedlaethol ymhellach o ran datblygu safonau'r Gymraeg mewn addysg er mwyn sicrhau gweithlu dwyieithog medrus mewn Cymru ddwyieithog, gan gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymraeg mewn Addysg. Po fwyaf o ddisgyblion sy'n mwynhau datblygu eu sgiliau Cymraeg mewn addysg gynradd, y mwyaf sy'n debygol o barhau i ddatblygu'r sgiliau hyn mewn addysg uwchradd a chael cyfleoedd i gyfoethogi eu bywydau yng Nghymru gan

ddefnyddio'r Gymraeg.

Lleoliad

Mae safle'r adeilad newydd wedi cael ei nodi ar safle'r ysgol bresennol. Bydd yn tarfu cyn lleied â phosibl ar drefniadau teithio presennol disgyblion ac yn parhau i fod mewn lleoliad canolog yn y dalgylch gan y bydd ar safle'r ysgol bresennol.

Mae'r datblygiad arfaethedig yn sensitif i anghenion y gymuned ac mae dealltwriaeth glir hefyd, o'r manylion a ddarperir yn yr Asesiad Effaith Integredig hwn a dogfennaeth gysylltiedig sy'n ymwneud â'r cynnig, fod proffil ieithyddol cyfredol ac amcanestynedig cymunedau a'r ardal yn cefnogi'r angen am addysg cyfrwng Saesneg.

Amseru

Yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Cabinet a phroses cais cynllunio lawn ar wahân, rhagwelir mai'r dyddiad meddiannu fyddai mis Medi 2024.

8. Data a Gwybodaeth

(Pa ddata neu dystiolaeth arall a ddefnyddiwyd i lywio'r gwaith o ddatblygu'r cynnig? Gall tystiolaeth gynnwys canlyniad ymgynghoriadau blaenorol, cronfeydd data presennol, prosiectau peilot, adolygiad o gwynion a chanmoliaethau cwsmeriaid a/neu adborth arall gan ddefnyddwyr gwasanaeth, data cenedlaethol a rhanbarthol, cyhoeddiadau academaidd ac adroddiadau ymgynghorwyr ac ati)

Data/tystiolaeth <i>(Rhowch ddolen i adroddiad os yw'n briodol)</i>	Canfyddiadau perthnasol allweddol	Sut mae'r data/tystiolaeth wedi llywio'r cynnig hwn?
<p>Mae sawl maes data wedi bwydo i mewn i'r ymchwil y tu ôl i'r cynnig hwn:</p> <ul style="list-style-type: none">• Demograffeg yr ardal leol, gan gynnwys tueddiadau ar gyfer y dyfodol fel y nodir yn adran 6• canfyddiadau'r asesiad o addysg Gymraeg yn 2018• yr arolwg o'r galw gan rieni yn 2018• categori adeiladau'r ysgol, gan gynnwys ôl-groniad o waith cynnal a chadw• y materion sy'n ymwneud â'r adeiladau CLASP presennol	<p>Mae rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif yn rhaglen buddsoddi cyfalaf strategol, bwysig yn yr hirdymor. Caiff ei hariannu ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a'i nod yw creu cenedlaeth o ysgolion yr 21ain ganrif yng Nghymru yn unol â'r meysydd blaenoriaeth canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Lleihau nifer yr ysgolion sydd mewn cyflwr gwael• Sicrhau bod gennym ysgolion o'r maint cywir, yn y lleoliadau cywir• Cynnig digon o leoedd i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg	<p>Bydd y cynnig o fudd i ddisgyblion yn nalgylch Ysgol Gynradd Plasyfelin gan y bydd yn darparu cyfleuster yr 21^{ain} Ganrif modern ac addas at y diben i wella a chefnogi'r gwaith o ddarparu addysg Saesneg ymhellach yn ardal Parc Churchill.</p> <p>Caiff yr Asesiad Effaith Integredig hwn ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg a'r Cabinet fel rhan o'r pecyn ymgynghori i'r aelodau ei ystyried fel rhan o'r broses benderfynu.</p> <p>Ymgwymerir â phroses cais cynllunio ar</p>

<ul style="list-style-type: none"> • data ar anfantais gymdeithasol ar draws y fwrdeistref sirol • y galw am ddefnydd cymunedol <p>Y rhain yw'r sail ar gyfer yr holl amcanestyniadau o dueddiadau'r galw yn y dyfodol ac maent yn darparu tystiolaeth o'r angen am leoedd ychwanegol a chyfleusterau wedi'u huwchraddio yn y lleoliad hwn yn y fwrdeistref sirol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o'r ystad addysgol <p>Gwneir Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 o dan Adrannau 38 a 39 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac mae'n gymwys i gynigion mewn perthynas ag ysgolion a gynhelir fel y'u diffinnir yn Adran 98 o Ddeddf 2013. Hynny yw, ysgol yng Nghymru sy'n ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol, ysgol arbennig gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir. Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn darparu canllawiau statudol clir ar y prosesau y mae angen cydymffurfio â nhw wrth ddatblygu cynnig.</p> <p>Gan nad yw'r cynnig hwn yn awgrymu adleoli'r ysgol y tu hwnt i'r safle presennol na newid ei chapasiti fwy na 25%, nid yw'r broses ymgynghori wedi'i chwmpasu gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion ac, yn hytrach, caiff ei harwain gan "Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu" a "Sbectwm Ymgysylltu" Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Fodd bynnag, bydd y broses yn adlewyrchu'r prosesau a amlinellir yn Adran 3 o God Trefniadaeth Ysgolion 2018.</p> <p>Bydd datblygiadau ar bob cam yn destun prosesau craffu, adolygu a chymeradwyo gan Aelodau'r Cabinet ac, yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn rhan o'r broses fel un o'r partneriaid cyflawni allweddol a chydgyllidwr y prosiect.</p>	<p>wahân, gan gynnwys ymgynghoriad ychwanegol, er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r adeilad a thrafnidiaeth.</p>
--	---	--

A nodwyd unrhyw fylchau yn y dystiolaeth a'r data a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r cynnig hwn a sut y caiff y bylchau hyn eu llenwi?

Gellir cynnwys manylion ymgynghoriad pellach yn Adran 9.

Ni nodwyd unrhyw fylchau yn y dystiolaeth a'r data a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r cynnig hwn.

9. Ymgynghori

(Mewn rhai achosion, mae gofyniad cyfreithiol i ymgynghori. Mewn achosion eraill, hyd yn oed pan nad oes rhwymedigaeth gyfreithiol, efallai y bydd disgwyliad dilys gan bobl y caiff ymgynghoriad ei gynnal. Lle penderfynwyd bod ymgynghoriad yn ofynnol, mae'n rhaid dilyn [Egwyddorion Gunning](#). Ystyriwch y [Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu](#). Noder y gall fod angen diweddarau hyn wrth i'r cynnig ddatblygu ac i gryfhau'r asesiad.

Disgrifiwch unrhyw ymgynghoriadau diweddar, neu ymgynghoriadau arfaethedig, yn fras gan roi sylw penodol i roi tystiolaeth o Egwyddorion Gunning.

Drwy fodel [TîmCaerffili - Yn Well gyda'n Gilydd](#), mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau y darperir gwasanaethau o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion i'r cymunedau yn ein bwrdeistref sirol. Wrth sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn addas i'r dyfodol, rydym yn cydnabod bod angen defnyddio gweithgareddau ymgysylltu effeithiol sy'n rhan ganolog o'n proses benderfynu - [Darllenwch fwy am ein dull o Ymgynghori ac Ymgysylltu yma](#)

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae'r Cod yn gosod gofynion y mae'n rhaid i gyrrff perthnasol, gan gynnwys awdurdodau lleol, weithredu yn unol â nhw wrth gyflwyno cynigion mewn perthynas ag ysgolion a gynhelir fel y'u diffinnir yn Adran 98 o Ddeddf 2013. Hynny yw, ysgol yng Nghymru sy'n ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol, ysgol arbennig gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir.

Ystyrir bod Ysgol Gynradd Plasyfelin yn ysgol gymunedol o dan y cod, ond nid yw'r gofyniad i ymgynghori o dan y cod yn gymwys i gynigion lle byddai prif fynedfa'r ysgol ar ei safle newydd lai na milltir o'r safle presennol a lle byddai'r estyniad yn llai na 25% o'r capasiti presennol. Mae'r ddau beth hyn yn wir yn yr achos hwn.

Fodd bynnag, at ddibenion datblygu'r cynnig hwn ac i sicrhau y gwneir penderfyniadau mewn modd agored, tryloyw a chytbwys, cynhelir proses ymgynghori a fydd yn adlewyrchu egwyddorion Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu 2020-2025 y Cyngor. Gan ddefnyddio'r dull "Sbectwm Ymgysylltu", defnyddir lefel ymgysylltu briodol i hysbysu rhanddeiliaid ac ymgynghori â nhw, gan adlewyrchu'r prosesau cyfatebol a amlinellir yn Adran 3 o God Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn unig.

Wrth ymgymryd â phroses ymgynghori mewn perthynas â chynnig ar gyfer ysgol, bydd y Cyngor yn cyhoeddi gwybodaeth er mwyn sicrhau y gwneir penderfyniadau mewn modd agored, tryloyw a chytbwys.

Fel rhan o'r cynnig hwn, mae'r dogfennau canlynol wedi'u creu:

- Dogfen Ymgynghori yn nodi'r cynnig (y ddogfen hon)
- Crynodeb o Hawliau Plant a Phobl Ifanc
- Asesiad Effaith Integredig

Darperir gwybodaeth ar wefan y Cyngor a chaiff yr holl ddogfennaeth ei chyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg ac mae ar gael mewn

ieithoedd neu fformatau eraill ar gais.

Noder:

- Caiff yr holl ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori eu cofnodi a'u crynhoi mewn Adroddiad Briffio.
- Ni chaiff unrhyw ymatebion negyddol a wneir yn ystod y cyfnod ymgynghori eu cyfrif fel gwrthwynebiadau ac nid oes angen cyflwyno Hysbysiad Statudol fel rhan o'r broses hon, ond cânt eu cofnodi fel sylwadau anffafriol.
- Caiff yr Adroddiad Briffio ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ar gyfer adolygiad cychwynol a chymeradwyaeth, a'r Cabinet fydd yn gyfrifol am y gymeradwyaeth derfynol i barhau i'r cam cais cynllunio ac achos busnes llawn.
- Bydd aelodau'r Cabinet yn cael copïau o'r holl ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn eu fformat gwreiddiol fel rhan o'r broses benderfynu.

10. Monitro ac Adolygu

Sut y caiff y broses o roi'r cynnig ar waith ac effaith y cynnig eu monitro, gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau a roddir ar waith?

Caiff y rhaglen ei rheoli gan Fwrdd Prosiect a fydd yn cynnwys y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol, y Pennaeth Addysg, Cynllunio a Strategaeth, y Prif Swyddog Addysg, Aelod y Cabinet ar gyfer Addysg a Chyflawni, Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo Dros Dro a Rheolwr Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Y Bwrdd Prosiect fydd yn gyfrifol am gyfarwyddo a rheoli'r Rhaglen yn gyffredinol, gan fod yn gyfrifol am lwyddiant y Rhaglen a gweithredu fel y corff penderfynu ar gyfer y Rhaglen.

Tîm Rheoli'r Prosiect, a fydd yn cynnwys y Pennaeth Addysg, Cynllunio a Strategaeth, yn ogystal ag adnoddau a staff o'r Gwasanaethau Eiddo, fydd yn goruchwyllo'r gwaith o ddatblygu a rhoi pob prosiect cysylltiedig ar waith o ddydd i ddydd, a bydd yn atebol i'r Bwrdd ac uwchswyddogion perthnasol eraill, fel y bo'n briodol.

Mae personél allweddol wedi cael Hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, sesiynau ar Asesiadau Effaith Integredig ac Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb ac wedi mynychu hyfforddiant a sesiynau gwybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Caiff anghenion hyfforddiant eu hadolygu drwy gydol y broses ac eir i'r afael â nhw yn ôl yr angen.

Yn ogystal â hyn, mae Rheolwr Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif a'r Prif Swyddog wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o'r Tîm Cydraddoldebau, y Gymraeg ac Ymgynghori i ddilyn canllawiau yn ôl y gofyn.

Beth yw'r trefniadau ymarferol ar gyfer monitro?

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod yn rhaid i bob aelod o'r sefydliad feddu ar y sgiliau i wneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael. Cydnabyddir bod dulliau rheoli prosiectau da yn elfen hollbwysig er mwyn llwyddo i fynd i'r afael â'n rhaglen waith strategol.

Caiff egwyddorion rheoli prosiectau eu dilyn (Prince2 ac MS Project) drwy'r rhaglen. Caiff egwyddorion rheoli prosiectau eu rhoi ar waith ar gyfer y rhaglen Band B gyffredinol a bydd y prosiect yn defnyddio profiad tîm y prosiect sy'n rhan o brosiect Band A. Bydd hyn yn dechrau gyda chynllun gweithredu ar gyfer y Rhaglen a fydd yn diffinio amcanion, cyfrifoldebau, camau gweithredu dibynnol a risgiau'r rhaglen. Bydd yr olaf yn cynnwys dileu risgiau neu gamau lliniaru yn ogystal â'r unigolyn sy'n gyfrifol am y risg. Bydd adnodd i fonitro'r rhaglen gyffredinol yn cyfuno ac yn cydlynu rhaglenni caffael, dylunio ac adeiladu ac yn nodi'r prif ddibyniaethau a'r llwybr critigol.

Yn ogystal â'r adroddiadau niferus y mae angen eu cynhyrchu yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 a phrosesau penderfynu mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, dilyniir model achos busnes er mwyn sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Datblygwyd Achos Busnes Amlinellol / Achos Busnes Amlinellol Strategol ar y cam cysyniadol yn seiliedig ar y pum maes allweddol sy'n sail i'r Broses Achosion Busnes Gwell (Model Busnes Pum Achos).

Canolbwyntiodd yr Achos Busnes ar y canlynol:

- cyfiawnhad strategol ac amcanion buddsoddi y prosiect (Achos Strategol)
- y rhesymeg y tu ôl i gwtogi'r rhestr hir o opsiynau yn rhestr fer a dadansoddiad o'r arfarniad o opsiynau a'u manteision (Achos Economaidd)
- cost amlinellol y prosiect a manylion arian cyfatebol a phroffil gwariant (Achos Ariannol)
- y strwythur rheoli arfaethedig (Achos Rheoli)
- y strategaeth fasnachol (Achos Masnachol)

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymeradwyaeth i sicrhau'r cyllid mewn egwyddor ar y cam hwn cyn i'r cynnig fynd rhagddo drwy'r broses ymgynghori.

Wrth i'r cynnig fynd rhagddo drwy'r prosesau ymgynghori, cynhelir cyfarfodydd rheolaidd â Swyddogion Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yn Llywodraeth Cymru er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gynnydd.

Unwaith y bydd y Cabinet yn gwneud penderfyniad terfynol ar y cynnig, caiff Achos Busnes

	<p>Llawn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a fydd yn canolbwyntio'n llwyr ar y costau wedi'u tendro oni bai fod unrhyw beth wedi newid ers cytuno ar yr achos busnes gwreiddiol. Ar y pwynt hwn, yn unol â chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, caiff y cyllid ei ryddhau er mwyn rhoi'r cynnig ar waith.</p> <p>Yna, os caiff y cynnig ei roi ar waith (yn seiliedig ar gymeradwyaeth fel yr amlinellir uchod), ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau, caiff Adroddiad Cloi gan Lywodraeth Cymru ei lunio, wedi'i ategu gan gostau llawn y prosiect a dadansoddiad o b'un a yw'r prosiect wedi cyflawni budd i'r gymuned.</p> <p>Mae'n ofynnol i Dîm Ysgolion yr 21ain Ganrif fonitro prosiectau yn ystod eu pum mlynedd gyntaf drwy gwblhau gweithdai gwerthuso gyda'r disgyblion a'r staff pan fyddant yn defnyddio'r adeiladau. Adroddir ar hyn i Lywodraeth Cymru hefyd a bydd yn helpu'r Cyngor i ystyried arferion gorau ac unrhyw feysydd i'w gwella mewn prosiectau yn y dyfodol.</p>
<p>Sut y caiff canlyniadau'r gwaith monitro eu defnyddio i ddatblygu cynigion yn y dyfodol?</p>	<p>Mae'r Cyngor yn creu dogfen brotocol ar gyfer pob prosiect i agor/cau/uno ysgolion. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu cyfrifoldebau unigolion a chyfrifoldebau tîm ar gyfer y rhestr llawn o'r camau gweithredu gofynnol dros y tri cham o ddylunio a pharatoi ar gyfer adeiladu, adeiladu a meddiannu'r ysgol a datgomisiynu.</p> <p>Caiff cyfarfodydd monitro rheolaidd eu cynnal ac fel arfer byddant yn cynnwys cynrychiolwyr o Dîm Ysgolion yr 21ain Ganrif, Penaethiaid, Cyngorwyr Addysg, Gwasanaethau Eiddo, Gwasanaethau Arlwyo a'r adrannau TGCh, Rheoli Traffig, Caffael ac Archwilio. Bydd rhanddeiliaid perthnasol hefyd yn rhan o'r broses o werthuso'r prosiect wedi iddo ddod i ben er mwyn adolygu'r canlyniadau a sicrhau y caiff gwelliannau eu gwneud i brosiectau yn y dyfodol.</p> <p>Caiff y Buddiannau a Wireddwyd eu monitro gan dîm y prosiect a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac adroddir arnynt i Lywodraeth Cymru yn adroddiad cloi'r prosiect ac mewn dogfennau perthnasol eraill. Adroddir ar y buddiannau i'r gymuned bob chwarter, yn flynyddol ac ar ôl i'r prosiect ddod i ben.</p> <p>Caiff adolygiad porth ei gynnal hefyd yn ôl gofynion y cytundeb cyllido. Fel rhan o'r adolygiad, bydd ymarferwyr annibynnol nad ydynt yn rhan o'r rhaglen/prosiect yn defnyddio eu profiadau a'u harbenigedd i fwrw golwg ar gynnydd y rhaglen neu'r prosiect yn ogystal â'r tebygolrwydd o lwyddo. Bydd pob argymhelliad gan y tîm adolygu yn cael ei ystyried a'i roi ar waith yn ôl y gofyn.</p> <p>Caiff adolygiad yn dilyn y contract ei gynnal hefyd.</p>

<p>Pryd y bwriedir adolygu'r cynnig?</p>	<p>Caiff y cynnig ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg a'r Cabinet er mwyn ei adolygu a chymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad briffio. Cyflwynir yr adroddiad ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben a chaiff copïau o'r holl ymatebion eu cynnwys fel rhan o'r pecyn a roddir i Aelodau'r Cabinet er mwyn ei ystyried fel rhan o'r broses benderfynu.</p>
<p>Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod hyn yn digwydd?</p>	<p>Gofynnir i Aelodau'r Cabinet adolygu'r cynnig a gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid rhoi'r cynnig a amlinellir isod ar waith neu beidio: Creu ysgol gynradd newydd, o'r radd flaenaf ar gyfer Plasyfelin ar dir y safle presennol i gynnwys addysg gynradd, darpariaeth feithrin, darpariaethau gofal plant a defnydd cymunedol o'r cyfleuster.</p> <p>Os caiff ei gymeradwyo, Awdur yr adroddiad hwn (neu swyddog enwebedig yn ei is-adran) fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr Asesiad Effaith Integredig a'r cynnig yn cael eu hadolygu a bod unrhyw gamau lliniaru'n cael eu rhoi ar waith, neu y cymerir camau dilynol yn eu cylch.</p>

11. Argymhelliad a'r Rhesymeg	
<input checked="" type="checkbox"/>	<p>Rhoi'r cynnig ar waith heb unrhyw ddiwygiadau</p>
<input type="checkbox"/>	<p>Rhoi'r cynnig ar waith gan ystyried y camau lliniaru a amlinellwyd</p>
<input type="checkbox"/>	<p>Gwrthod y cynnig oherwydd yr effaith anghymesur ar gydraddoldeb, tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol</p>

A ydych wedi cysylltu â swyddogion perthnasol i gael cyngor ac arweiniad? Ydw Nac ydw

12. Y Rheswm/Rhesymau dros yr Argymhelliad
(Rhowch grynodedb o'r Asesiad Effaith Integredig isod. Dylid cynnwys y crynodeb hwn yn yr adran "Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig" o Dimpled yr Adroddiad Corfforaethol. Dylid cyhoeddi'r Asesiad Effaith Integredig ar y cyd â'r Adroddiad cynnig).

Mae'r Asesiad Effaith Integredig hwn yn argymhell, yn unol â'r prosesau a amlinellir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018, fod Aelodau yn

cymeradwyo'r cynnig i greu ysgol gynradd newydd, o'r radd flaenaf ar gyfer Plasyfelin ar dir y safle presennol i gynnwys addysg gynradd, darpariaeth feithrin, darpariaethau gofal plant a defnydd cymunedol o'r cyfleuster.

Mae'r wybodaeth a gasglwyd ac a adolygwyd fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig hwn yn dangos bod potensial y bydd y galw am addysg Saesneg yn cynyddu yn ardal Parc Churchill a bod angen uwchraddio'r ysgol gynradd bresennol drwy godi adeilad newydd.

13. Rheoli Fersiynau

(Dylid defnyddio'r Asesiad Effaith Integredig ar gamau cynnar y broses o ddatblygu'r cynnig. Gellir atgyfnerthu'r Asesiad wrth i amser fynd heibio er mwyn helpu i lywio'r cynnig. Bydd yr adran Rheoli Fersiynau yn cynnig llwybr archwilio er mwyn dangos sut mae'r Asesiad wedi cael ei ddatblygu dros amser)

Rhif y Fersiwn	Awdur	Disgrifiad cryno o'r diwygiadau/diweddariad	Dyddiad Diwygio
1.	Andrea West	Er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd a nodir yn Adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2021, defnyddiwyd y templed newydd hwn ar gyfer yr Asesiad Effaith Integredig.	23.07.2021
2.	Andrea West	Mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi'i adolygu i gynnwys unrhyw rai ychwanegol elfennau a amlygwyd drwy'r broses ymgynghori statudol a gynhaliwyd rhwng 20 Hydref 2021 a 1 Rhagfyr 2021. Pwrpas yr asesiad pellach hwn yw ystyried unrhyw wybodaeth bellach sydd wedi dod ymlaen drwy'r ymgynghoriad neu fel arall. Nid oes angen diweddariadau pellach ar hyn o bryd.	02.12.2021

Awdur yr Asesiad Effaith Integredig

Enw:	Andrea West
Teitl Swydd:	Rheolwr Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif
Dyddiad:	<i>A. West</i>

Cymeradwyaeth gan Bennaeth y Gwasanaeth

Enw:	Sue Richards		
Teitl Swydd:	Pennaeth Addysg, Cynllunio a Strategaeth		
Llofnod:	<i>S.Richards</i>	Dyddiad:	23.7.2021